awen


Ymddiriedolaeth
Ddiwylliannol
Cultural Trust



PENNAETH LLYFRGELLOEDD, THEATRAU A CHYMUNEDAU

PECYN RECRIWTIO

MAWRTH 2026



CROESO

Diolch am eich diddordeb yn y rôl newydd - Pennaeth Llyfrgelloedd, Theatrau a Chymunedau yn Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen. Rydym yn chwilio am arweinydd rhagorol i ymuno â'n sefydliad a helpu i lunio dyfodol ein llyfrgelloedd, theatrau a'n gweithgarwch sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

Bellach yn ein degfed flwyddyn, mae Awen yn elusen ddiwylliannol uchel ei pharch yr ymddiriedir ynddi, sy'n cael effaith sylweddol ar gymunedau ledled de Cymru. Mae ein gwaith yn cynnwys llyfrgelloedd, theatrau, canolfannau cymunedol, tŷ a pharc gwledig 113 erw, a mentrau ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu.

O fewn y lleoliadau hyn, mae Awen wedi ymgorffori'n gadarn ei ymrwymiad i ddiben cymdeithasol, gyda'r nod o "wneud bywydau pobl yn well" drwy'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth, a sicrhau bod mynediad yn gynhwysol ac yn drawsnewidiol i bawb.

Mae'r hyn rydyn ni'n ei wneud yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'n hadeiladau. Trwy ein rhaglenni a phartneriaethau ymgysylltu â'r gymuned, rydym yn cefnogi lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol, yn meithrin talent ac yn helpu pobl o bob oed i fwynhau'r posibiliadau y gall profiadau diwylliannol eu cynnig.

Mae ein timau llyfrgelloedd, theatrau a chanolfannau cymunedol yn adlewyrchu ehangder ac uchelgais ein gwaith. Maent yn fannau croesawgar, creadigol lle gall artistiaid, cynulleidfaoedd, teuluoedd, unigolion a grwpiau cymunedol ddod at ei gilydd i gysylltu a theimlo ymdeimlad o berthyn.

Rydym yn falch o fod yn aelod o bortffolio Cyngor Celfyddydau Cymru ers 2024 ac yn gweithio mewn partneriaeth ag artistiaid llawrydd, byrddau iechyd, awdurdodau lleol a phartneriaid trydydd sector i gael effaith gymdeithasol sylweddol, barhaol ar gymunedau, grwpiau ac unigolion.

Fel Pennaeth Llyfrgelloedd, Theatrau a Chymunedau, bydd gennych ran ganolog fel rhan o Uwch Dîm Arweinyddiaeth Awen wrth gyflawni ein strategaeth. Byddwch yn darparu cyfeiriad strategol ac yn llywio ein llyfrgelloedd, theatrau, canolfannau cymunedol a gweithgareddau, i gynyddu mynediad a chyfranogiad a darparu profiadau o ansawdd uchel i ymwelwyr a chwsmeriaid.

Byddwch yn cynnig mewnwelediad i dueddiadau polisi a sector cenedlaethol, cryfhau ein partneriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, ac ysgogi cyfleoedd newydd i gynyddu mynediad, dyfnhau ymgysylltiad a gwella effaith gymdeithasol Awen.

Bydd eich arweinyddiaeth yn cefnogi timau ymroddedig yn ein llyfrgelloedd a'n theatrau, yn annog ac yn grymuso cydweithredu, ac yn sicrhau bod ein gwasanaethau diwylliannol yn ariannol gynaliadwy, yn cael eu llywodraethu'n dda ac yn gwella'n barhaus.

Os yw'r syniad o arwain o fewn sefydliad diwylliannol, a ysgogir gan werthoedd gydag uchelgais, diben a chymuned wrth ei wraidd, yn eich ysbrydoli byddem yn falch iawn o glywed gennych. Cysylltwch â ni am sgwrs anffurfiol drwy e-bostio richard.hughes@awen-wales.com.

Richard Hughes
Prif Weithredwr



LLYFRGELLOEDD



LLYFRGELLOEDD

Mae Awen yn rheoli chwe llyfrgell amser llawn, dwy lyfrgell gymunedol ran-amser a'r gwasanaeth dosbarthu Llyfrau ar Olwynion. Rydym yn cefnogi ac yn stocio dwy lyfrgell gymunedol ychwanegol mewn lleoliadau sydd wedi'u staffio a'u rheoli gan Halo Leisure; rydym hefyd yn rheoli cronfa lyfrau fawr sydd wedi'i lleoli yn Llyfrgell y Pîl.

Dyma rai o brif nodau'r gwasanaeth llyfrgell:

- Gwella llythrennedd pobl o bob oed a chefnogi darllen er pleser;
- Gwella lles a balchder pobl yn y gymuned;
- Darparu mynediad diduedd i ffynonellau gwybodaeth ddibynadwy;
- Parhau i sicrhau bod darllen wrth wraidd yr hyn a wnawn;
- Datblygu lleoedd llyfrgell newydd, ysbrydoledig;
- Creu mannau a chyfleoedd sy'n gwella bywydau plant; a
- Cyfrannu at yr agenda sgiliau digidol.

Yn fannau cynnes, diogel a hygyrch i bawb, mae ein llyfrgelloedd yn hyrwyddo darllen, dysgu a llythrennedd, gan ddarparu mynediad diduedd i ffynonellau gwybodaeth dibynadwy. Mae ein digwyddiadau a'n gweithgareddau yn helpu i leihau ynysu cymdeithasol, gwella lles a darparu cyfleoedd i gael hwyl, dysgu a darganfod.

Mae wedi dod yn amlwg bod digwyddiadau, gweithgareddau a gwasanaethau eraill yn cael rôl gynyddol bwysig wrth ddod â defnyddwyr newydd a phresennol i'n llyfrgelloedd. Rydym yn llawn cyffro i fod yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid cyngor ar gynlluniau i ddatblygu ein llyfrgelloedd ymhellach fel canolfannau cymunedol.

Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae Awen wedi arwain gwaith adnewyddu Llyfrgelloedd Betws, Sarn, Pencoed, Pen-y-bont ar Ogwr a'r Pîl, diolch i gyllid gan Lywodraeth Cymru a chefnogaeth Cynghorau Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae gennym uchelgais i wella Llyfrgelloedd Abercynffig a Phorthcawl dros y pum mlynedd nesaf.

Ym mis Tachwedd 2024, ailagorodd Llyfrgell Maesteg a Llyfrgell Hanes Lleol y fwrdeistref sirol yn ei chartref newydd yn Neuadd y Dref Maesteg, gan ganiatáu ar gyfer cynnal mwy o ddigwyddiadau, gweithgareddau, cyfarfodydd, dosbarthiadau a gweithdai ar yr un pryd. Mae hefyd yn cynnig llyfrgell blant a ddyluniwyd gan bensaer.

Roedd dros **382,000 o ymweliadau** â llyfrgelloedd Awen yn 2024-25.

Benthycwyd dros 327,000 o lyfrau yn 2024-25.

Fe wnaethom groesawu dros **4,000 o aelodau llyfrgell newydd** yn 2024-25.

Lawrlwythwyd dros 69,000 o lyfrau digidol a sain yn 2024-25.


Mae 83% o ddefnyddwyr yn dweud bod y llyfrgell **wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywyd.**[1]

1. Yn seiliedig ar Arolwg Defnyddwyr sy'n Oedolion yn 2023







THEATRAU



NEUADD Y GWEITHWYR BLAENGARW



PAFILIWN Y GRAND, PORTHCAWL



NEUADD Y DREF MAESTEG



Y MET, ABERTYLERI



Y MUNI, PONTYPRIDD



THEATR IEUENCTID PEN-Y-BONT AR OGWR

THEATRAU

Mae ein theatrau yn fannau poblogaidd, wrth galon y gymuned, gan ddod â phobl o bob cefndir at ei gilydd i fwynhau profiadau cyfoethogi a rennir ar y llwyfan ac oddi arno. Rydym yn gweithredu'r theatrau hyn mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf.

awen Neuadd y Gweithwyr Blaengarw
Blaengarw Workmen's Hall

NEUADD Y GWEITHWYR BLAENGARW

Yn swatio ar fryn uwch ben Cwm Garw, mae Neuadd y Gweithwyr Blaengarw yn lleoliad cymunedol poblogaidd iawn sy'n cynnig gweithdai a dosbarthiadau ynghyd â rhaglen broffesiynol o ddrama, comedi, cerddoriaeth fyw a mwy.

awen Pafiliwn y Grand Porthcawl
Grand Pavilion Porthcawl

PAFILIWN Y GRAND, PORTHCAWL

Mae Pafiliwn y Grand ar gau dros dro ar gyfer gwaith ailddatblygu uchelgeisiol gwerth £26 miliwn. Bydd hwn yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i ddiogelu'r adeilad eiconig hwn ar lan y môr am flynyddoedd lawer i ddod, a bydd yn sicrhau ei fod yn cadw ei safle fel lleoliad celfyddydol a diwylliannol rhanbarthol blaenllaw.

awen Neuadd y Dref Maesteg
Maesteg Town Hall

NEUADD Y DREF MAESTEG

Mae buddsoddiad mawr o £10 miliwn wedi adfer Neuadd y Dref Maesteg i'w hen ogoniant, gan warchod ei threftadaeth gyfoethog ochr yn ochr â chyfleusterau cyfoes gan gynnwys atriwm gwydr, sinema a theatr stiwdio Y Bocs Oren, llyfrgell gyhoeddus, llyfrgell blant bwrpasol, llyfrgell hanes lleol a chaffi.

the met

Y MET, ABERTYLERI

Wedi'i leoli yng nghanol tref Abertyleri, mae'r Met yn berl cudd o gyfleoedd diwylliannol; lleoliad hygyrch sy'n cyflwyno cymysgedd bywiog o gerddoriaeth fyw, sinema, adloniant i'r teulu, theatr a pherfformiadau grwpiau cymunedol i gymuned Blaenau Gwent.

awen Y Muni

Y MUNI

Gyda'i bensaernïaeth gothig drawiadol, mae'r lleoliad newydd ei adnewyddu ac yn gwbl hygyrch yng nghanol tref Pontypridd ac yn cynnig lleoliad swynol i brofi cymysgedd eclectig o gerddoriaeth fyw, comedi, nosweithiau meic agored, adloniant i'r teulu a llogi cymunedol, diolch i'r gwaith i'w ailddatblygu yn ddiweddar, gwerth £6 miliwn.

BYT

THEATR IEUENCTID PEN-Y-BONT AR OGWR

Mae ein cwmni theatr ieuenctid, a enwebwyd am NODA, yn cefnogi llwybrau gyrfa'r diwydiant creadigol trwy ddarparu hyfforddiant o ansawdd uchel yn y celfyddydau perfformio, yn cynnig cyfle i weithwyr proffesiynol y diwydiant i berfformio yn rheolaidd a meithrin hyder, sgiliau a gwaith tîm.

Daeth **dros 72,500 o bobl** i ddigwyddiadau neu gymryd rhan mewn gweithgareddau yn ein lleoliadau yn 2024-25.

Ers 2015, rydym wedi helpu i sicrhau **dros £35 miliwn** ar gyfer ailddatblygiadau diwylliannol a threftadaeth o bwys.

Daeth **dros 10,900 o bobl** i ddigwyddiadau Cymraeg neu ddwyieithog yn 2024-25.

Fe wnaethom gyhoeddi bron i **200 o docynnau** i ddefnyddwyr cerdyn Hynt yn 2024-25.

Daeth **dros 14,500 o bobl** i gymryd rhan mewn prosiectau Lles Creadigol yn 2024-25.





CANOLFANNAU CYMUNEDOL

Mae Awen yn rheoli dwy ganolfan gymunedol, Awel y Môr ym Mhorthcawl a Chanolfan Bywyd Betws. Mae'r rhain yn lleoliadau a ddefnyddir yn aml sy'n cynnig mannau fforddiadwy ar gyfer ystod eang o grwpiau, digwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol a ffitrwydd.

YNGLŶN AG



YNGLŶN AG AWEN

Ein Diben

Mae Awen yn bodoli i 'wneud bywydau pobl yn well' trwy roi cyfle i bobl a chymunedau brofi, mwynhau a chael eu hysbrydoli gyda'i gilydd, gan ddiwylliant. Rydym yn ymgysylltu â dros filiwn o bobl bob blwyddyn.

Ein Gweledigaeth

Ein gweledigaeth strategol, a fydd yn llywio ein blaenoriaethau sefydliadol am y pum mlynedd nesaf, yw: creu cymunedau diwylliannol bywiog lle mae pawb yn teimlo eu bod yn perthyn. Gallwch lawrlwytho copi o'n strategaeth yma: bit.ly/ystrategaethawen

Ein Gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd – creadigol, cydweithredol, grymuso a theg – yn sail i bopeth a wnawn. Maen nhw'n diffinio beth rydyn ni'n ei gredu a sut rydyn ni'n ymddwyn. Maent yn llywio ein penderfyniadau a'n gweithredoedd dyddiol.

Ein Heffaith

Rydym yn diffinio ein heffaith gymdeithasol nid yn unig yn ôl nifer y bobl rydyn ni'n ymgysylltu â nhw, ond gwerth yr ymgysylltiadau hynny; y gyfradd o newid cadarnhaol sy'n digwydd oherwydd ein bod ni'n gwneud rhywbeth.

Ein Strategaeth

Lansiodd Awen ei strategaeth bum mlynedd newydd ar 1 Hydref 2025, gan nodi degfed pen-blwydd y dyddiad y dechreuodd yr elusen gofrestredig weithredu. Wrth wraidd y strategaeth mae nod i greu lleoedd a phrofiadau sy'n rhoi ymdeimlad o bwrpas, hunaniaeth, mynegiant ac yn bennaf oll ymdeimlad o berthyn.

Ein Meysydd Strategol

Mae'r strategaeth yn amlinellu ein blaenoriaethau o dan bum prif ganlyniad. Mae'r rhain wedi'u llywio gan ofynion cyflawni ein prif gyllidwyr – awdurdodau lleol Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf a Chyngor Celfyddydau Cymru – ochr yn ochr â blaenoriaethau creadigol a sefydliadol a fydd yn sicrhau llwyddiant Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen yn y dyfodol.

1. **Amgylchedd Iach**
   Amgylchedd iach lle bydd cenedlaethau'r dyfodol yn elwa o blaned lanach, mwy cydnerth sy'n cael ei deall yn well.

2. **Lleoedd bywiog i fyw a gweithio ynddynt**
   Lleoedd bywiog i fyw a gweithio ynddynt gydag economïau lleol sy'n tyfu, ymdeimlad balch o hunaniaeth a lle mae pawb yn cael y cyfle i gyflawni eu potensial.

3. **Ymgysylltu ac ymdeimlad o bwrpas**
   Mae pawb yn cael y cyfle i deimlo'n ymgysylltiedig a byw gydag ymdeimlad o bwrpas neu ei ddatblygu, gyda mynediad at sgiliau, cefnogaeth a chymorth pan fydd eu hangen arnynt.

4. **Cymunedau Iach**
   Cymunedau iach lle mae pawb yn cael y cyfle i fyw bywydau iach.

5. **Sefydliad Cynaliadwy**
   Sefydliad cynaliadwy, ac ystyrir Awen yn gyflogwr cyfrifol, teg, dibynadwy ac yn bartner o ddewis.

Ein hymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Pherthyn

Rydym wedi ymrwymo i feithrin gweithle lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu a'u bod yn perthyn. Rydym yn hyrwyddo cyfle cyfartal ym mhopeth a wnawn ac yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob cefndir. Rydym yn ymroddedig i greu diwylliant cynhwysol lle mae gwahaniaethau unigol yn cael eu dathlu a lle gall pawb ffynnu.

AMLINELLIAD O'R SWYDD

Teitl y Swydd:

Pennaeth
Llyfrgelloedd,
Theatrau a Chymunedau

Sail:

Llawn Amser

Cyflog:

£69,637 - £71,792

Statws:

Parhaol

Yn atebol am:

- Rheolwyr Llyfrgelloedd
- Rheolwyr Cyffredinol
  (Neuadd y Dref Maesteg, Y Met, Y Muni)
- Rheolwr Technegol a Chynhyrchu
- Cynhyrchydd Creadigol
- Rheolwr Lles Creadigol

Eich Rôl:

Byddwch yn darparu arweinyddiaeth artistig, strategol a gweithredol ar gyfer llyfrgelloedd, theatrau a chanolfannau cymunedol Awen a rhaglenni creadigol cysylltiedig. Byddwch yn arwain y gwaith o ddatblygu portffolio cydlynol sydd: yn cyfoethogi cymunedau; cefnogi lles; yn cynyddu mynediad a chyfranogiad; yn darparu profiadau ymwelwyr o ansawdd uchel; ac yn cryfhau effaith gymdeithasol Awen.

Byddwch yn arwain ac yn grymuso rheolwyr a thimau i ddarparu profiadau rhagorol, meithrin creadigrwydd a chynnal gwerthoedd Awen. Gyda chyfrifoldeb am berfformiad ariannol, cydymffurfiaeth a rhagoriaeth gwasanaeth, byddwch yn sicrhau rheolaeth gyllideb gadarn, gwerthusiad cadarn a safonau uchel o ddiogelwch, hygyrchedd a chynhwysiant. Gan weithio ar y cyd ar draws Awen a thrwy adeiladu partneriaethau ystyrlon, byddwch yn dylanwadu ar ddatblygiad y sector, yn nodi cyfleoedd ar gyfer arloesi a thwf, ac yn sicrhau bod ein cynnig yn ymateb i anghenion lleol a blaenoriaethau cenedlaethol.

Yn y rôl hon, byddwch yn:

- Datblygu a chyflwyno gweledigaeth strategol ar gyfer llyfrgelloedd, theatrau, lleoliadau cymunedol a rhaglenni creadigol sy'n cyd-fynd â chenhadaeth, gwerthoedd a diben cymunedol Awen.
- Rhan allweddol o raglen datblygu cyfalaf Awen, gan gefnogi ailagor Pafiliwn y Grand, Porthcawl yn llwyddiannus a chwilio am gyfleoedd i wella ein portffolio o gyfleusterau yn barhaus.
- Arwain cynllunio strategol a datblygu gwasanaethau, gan sicrhau pwyslais cryf ar effaith gymdeithasol, cynhwysiant, dysgu, anghenion cymunedol a chynaliadwyedd ariannol.
- Darparu mewnwelediad, arweiniad a her arbenigol i uwch arweinwyr ar bolisi diwylliannol, tueddiadau'r sector, cyfleoedd a risgiau.
- Arwain y gwaith o ddatblygu cynlluniau busnes, achosion busnes a phrosiectau trawsnewid sy'n cryfhau cynaliadwyedd, ansawdd gwasanaeth a chanlyniadau masnachol ar draws llyfrgelloedd, theatrau, a lleoliadau diwylliannol.
- Cryfhau cyfraniad Awen at effaith economaidd ac adfywio lleol trwy bartneriaethau, mentrau cyrchfannau a gweithgarwch sy'n canolbwyntio ar y gymuned.
- Cyfrannu'n weithredol at arweinyddiaeth ehangach Awen fel aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.
- Sicrhau bod gwasanaethau diwylliannol yn darparu gweithrediadau o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid, ac sy'n gynhwysol ac yn cydymffurfio.
- Arwain y gwaith o ddatblygu rhaglenni ysbrydoledig, creadigol a hygyrch sy'n cyd-fynd â strategaeth a diben cymunedol Awen.
- Ymgorffori monitro cadarn, gwerthuso, dysgu a gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata ar draws gwasanaethau i gefnogi gwelliant ac arloesi parhaus.
- Arwain gofynion adrodd statudol, gan gynnwys Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru a chanlyniadau Buddsoddi Aml-flwyddyn Cyngor Celfyddydau Cymru.
- Adeiladu a chynnal partneriaethau cryf gydag awdurdodau lleol, sefydliadau celfyddydol, cyllidwyr, darparwyr addysg, grwpiau cymunedol a chyrff rhanbarthol/cenedlaethol; cynrychioli Awen ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.
- Cynrychioli Awen mewn fforymau, rhwydweithiau a chynadleddau sector i wella gweledigaeth, dylanwad a chydweithio.
- Sicrhau incwm allanol trwy grantiau, nawdd a phartneriaethau cyllido strategol, ac ysgogi mentrau elusennol a masnachol sy'n cynyddu cyfranogiad, ymgysylltu a refeniw.
- Arwain integreiddio llyfrgelloedd o fewn rhwydweithiau canolfannau cymunedol cynghorau partner i wella mynediad cymunedol at wasanaethau a chyfleoedd.
- Darparu arweinyddiaeth ysbrydoledig a chefnogol i reolwyr a thimau, gan feithrin diwylliant o greadigrwydd, cydweithredu, cynhwysiant a datblygiad proffesiynol parhaus.
- Sicrhau bod strwythurau staffio, gallu'r gweithlu, cynllunio olyniaeth a rheoli perfformiad yn cefnogi cyflawni o ansawdd uchel – gan greu'r amodau i eraill ffynnu.
- Dal cyfrifoldeb strategol a gweithredol am gyllidebau, gan sicrhau cynllunio ariannol cryf, amcanestyniadau, rheoli costau, cydymffurfiaeth a gwerth am arian.

Dyletswyddau a chyfrifoldebau cyffredinol y rôl hon yw:

- Bod yn gyfrifol am eich diogelwch eich hun a diogelwch staff eraill ac unrhyw aelod o'r cyhoedd a allai gael eu heffeithio gan eich gweithredoedd a'ch anweithredoedd yn y gwaith.
- Cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau hyfforddi a datblygu i gynnal eich datblygiad eich hun neu i wella cymhwysedd o fewn eich rôl.
- Cynnal ac integreiddio ein diben a'n gwerthoedd ym mhopeth rydych chi'n ei wneud, gan arsylwi a hyrwyddo pedwar gwerth Awen bob amser – Creadigol, Cydweithredol, Grymusol a Theg.
- Sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cwblhau yn unol ag ymrwymiad Awen i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac yn unol ag arfer gorau a deddfwriaeth.
- Herio'n weithredol unrhyw wahaniaethu a stigma yn y gweithle.
- Bod yn gyfrifol am ddiogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl.
- Gofalu am eich lles corfforol a seicolegol eich hun lle bynnag y bo modd.
- Cefnogi lles seicolegol a chorfforol ein cydweithwyr/tîm ac annog diwylliant empathig a chynhwysol.
- Bod yn gyfrifol wrth ein helpu i gyflawni ein huchelgais cynaliadwyedd trwy gyfrannu at leihau eich ôl troed carbon unigol a gweithio tuag at yr amcanion sefydliadol yn unol â strategaeth cynaliadwyedd Awen.
- Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau Awen.
- Ymgymryd â thasgau/dyletswyddau eraill sydd wedi'u neilltuo'n rhesymol i chi ac sydd o fewn eich gallu a gradd y rôl hon.

Nid yw hwn yn ddatganiad cyflawn o holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau y swydd hon, y gallai fod yn rhaid eu hamrywio i ddiwallu anghenion newidiol y busnes.

MANYLEB Y PERSON

Y Person:

NODIR MEINI PRAWF HANFODOL GAN (H)

- Arweinydd sy'n cael ei ysgogi gan werthoedd sy'n ysbrydoli hyder, cydweithredu a chreadigrwydd. (H)
- Meddyliwr strategol cryf gyda'r gallu i droi gweledigaeth yn weithredu ystyrlon. (H)
- Sgiliau rhyngbersonol, dylanwadu a chyfathrebu rhagorol, gyda'r gallu i ysbrydoli, ysgogi a chreu perthnasoedd cryf yn ogystal â chyflwyno ar lefel uwch. (H)
- Cydnerth, addasadwy ac yn gallu ymdrin â chymhlethdodau gyda barn gadarn a thegwch. (H)
- Meddu ar uniondeb, hygrededd personol ac urddas sy'n ysbrydoli ymrwymiad, brwdfrydedd a hyder. (H)
- Dull cadarnhaol o gefnogi cydweithwyr a thimau i gyflawni nodau ac amcanion cyffredin. (H)
- Moeseg gweithio tîm rhagorol ac yn gallu gweithio gyda chydweithwyr ar bob lefel o'r busnes a herio'n adeiladol. (H)
- Ymrwymiad i werthoedd, nodau ac amcanion Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen. (H)
- Angerddol am rôl diwylliant mewn lles ac adfywio cymunedol. (H)
- Arddangos gwerthoedd personol cryf, gan ddangos uniondeb, creadigrwydd, cydweithrediad a pharch, gydag ymrwymiad i gynhwysiant, amrywiaeth a chreu diwylliant lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu clywed a'u bod yn gallu cyfrannu. (H)

Cymwysterau, Sgiliau, Galluoedd a Phrofiad

NODIR MEINI PRAWF HANFODOL GAN (H)

- Cymhwyster lefel gradd neu brofiad cyfatebol, gyda hanes profedig o arweinyddiaeth a chyflawni ym maes diwylliant, theatrau, llyfrgelloedd, treftadaeth, addysg neu sector cysylltiedig. **(H)**
- Profiad arweinyddiaeth sylweddol ar draws gwasanaethau diwylliannol fel theatrau, llyfrgelloedd, celfyddydau, treftadaeth neu feysydd cysylltiedig. **(H)**
- Hanes profedig mewn cynllunio strategol, trawsnewid gwasanaethau a gwella sefydliadol. **(H)**
- Dangos profiad o reoli timau aml-safle a darparu profiadau cwsmeriaid o ansawdd uchel. **(H)**
- Craffter ariannol cryf, gan gynnwys gosod cyllideb, rhagfynegi a rheoli costau.**(H)**
- Llwyddiant amlwg wrth gynhyrchu incwm, cyllid allanol, datblygu partneriaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. **(H)**
- Y gallu i ddadansoddi a defnyddio data i lywio penderfyniadau, gwerthuso effaith a chefnogi gwelliant parhaus. **(H)**
- Profiad o reoli prosiectau ac arwain rhaglenni gwaith cymhleth. **(H)**
- Dealltwriaeth o gydymffurfio, diogelu a rheoli risg o fewn lleoliadau diwylliannol. **(H)**
- Dealltwriaeth gref o dueddiadau, heriau a chyfleoedd y sector diwylliannol – yn ddelfrydol yng nghyd-destun de Cymru.**(H)**
- Y gallu i ysgogi ac ysbrydoli timau trwy gyfnodau o newid. **(H)**
- Trwydded yrru lawn a mynediad at gar at ddibenion gwaith. **(H)**
- Dull hyblyg o ran oriau gwaith, gan gynnwys nosweithiau achlysurol a phenwythnosau ar gyfer perfformiadau neu ddigwyddiadau cymunedol. **(H)**
- Byddai'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn ddymunol iawn ond mae dealltwriaeth ac empathi o rôl y Gymraeg mewn diwylliant yn hanfodol.
- Dealltwriaeth o lywodraethu'r sector elusennol.

GWEITHIO YN AWEN

Ein pobl yw ein llwyddiant, ac rydym yn credu mewn gwobrwyo staff yn deg am y rôl a gymerir a darparu ystod eang o fuddion i helpu pob agwedd ar eich bywyd.

GWYLIAU BLYNYDDOL

Rydym yn gwybod pa mor bwysig ydyw i'n staff gymryd seibiant i ffwrdd o'r gwaith a dyna pam rydym yn cynnig 30 diwrnod o wyliau â thâl , yn cynyddu i 35 diwrnod wedi 5 mlynedd o wasanaeth (mae hyn yn ychwanegol at yr wyth diwrnod gwyliau cyhoeddus blynyddol).

PENSIWN

Byddwn yn cyfateb cyfraniad cyflogai o 6% â chyfraniad cyflogwr o 6%.

GWEITHIO HYBLYG

Mae'r rôl hon yn debygol o fod yn fodel hybrid o weithio, lle gallai eich dewisiadau o ran lleoliad gynnwys unrhyw un o'n lleoliadau, gweithio gartref neu unrhyw leoliad addas arall. Bydd gofyn i chi fynychu cyfarfodydd ar y safle fel rhan o'ch rôl.

SICRWYDD IECHYD

Byddwch yn cael mynediad at Health Assured, rhaglen cymorth i weithwyr fwyaf y DU, lle gallwch gael mynediad at offer a chymorth i fyw bywyd iach a hapus.

MANTEISION ERAILL

- Telir milltiroedd ar 45c y filltir.
- Mynediad i Awen Learn, safle dysgu digidol gyda thua 250 o fodiwlau
- Cynlluniau aberthu cyflog
- Aelodaeth ostyngol yn holl gyfleusterau hamdden Halo ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Parcio am ddim ym Mharc Gwledig Bryngarw, Brynmenyn
- Gwobrau i gydnabod ymrwymiad ac ymroddiad ein staff
- Gostyngiad o 20% yn ein caffis.
- Gostyngiad o 10% yn B-Leaf a Wood-B.

SUT I WNEUD CAIS

Os hoffech gael trafodaeth anffurfiol gyda Richard Hughes, y Prif Weithredwr, cyn gwneud cais, anfonwch e-bost at richard.hughes@awen-wales.com i wneud trefniadau.

GWNEWCH GAIS AR-LEIN:

https://cezanneondemand.intervieweb.it/awen-wales/cy/career

DYDDIAD CAU: Dydd Sul 12 Ebrill 2026

CYFWELIADAU: Dydd Mawrth 28 a dydd Mercher 29 Ebrill 2026

awen Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Cultural Trust

Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen
Swyddfeydd y Stablau, Tŷ Bryngarw,
Brynmenyn, Pen-y-Bont, CF32 8UU

Awen Cultural Trust
Stable Offices, Bryngarw House,
Brynmenyn, Bridgend, CF32 8UU

+44 (0) 1656 754825
enquiries@awen-wales.com
www.awen-wales.com

Rhif elusen gofrestredig / Registered charity number: 1166908
Rhif cofrestru TAW / VAT registration number: 224 3341 44
Rhif gofrestredig / Company number: 09610991

Mae Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen wedi'i chofrestru yng Nghymru fel cwmni cyfyngedig drwy warant.
Awen Cultural Trust is registered in Wales as a company limited by guarantee.